

PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC

DYDD MAWRTH, 13 RHAGFYR 2022

Yn
bressenol: Cynghorydd Bridgeman (Cadeirydd),
Y Cynghorwyr Boes, Davies, Ferguson-Thorne a/ac Hopkins

Aelodau Cyfetholedig: Carol Cobert (Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru), Bridgid Corr (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr) a/ac Celeste Lewis (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr)

29 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Patricia Arlotte (Cynrychiolydd yr Eglwys Gatholig Rufeinig), y Cynghorwyr Joyce, Melbourne a Simmons.

30 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau yn unol â'r Cod Ymarfer Aelodau.

31 : YR ADFERIAD COVID-19 MEWN YSGOLION

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg), Melanie Godfrey (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes), a Mike Tate (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Addysg a Dysgu Gydol Oes) i'r cyfarfod. Croesawodd hefyd Patrick Brunnock (Pennaeth, Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi), Claire Skidmore (Pennaeth, Ysgol Gynradd Radur a Michelle Jones (Pennaeth, Ysgol Gynradd Lansdowne).

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Merry i wneud datganiad, a chyfeiriodd at effaith tymor hir Covid-19 yn benodol ar ddisgyblion difreintiedig sut maent wedi colli ystod o brofiadau.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes at y newidiadau yn y modd y trinnir a chreffir ar ddata, mae'r data bellach yn eistedd gydag ysgolion ac mae'n teimlo y byddai'r Pwyllgor yn elwa o'r hyn y mae'r tri Phennaeth yn ei ddweud am eu hysgolion eu hunain.

Darparwyd y Pwyllgor gyda [chyflwyniad](#) gan y Cyfarwyddwr Cynorthwyol, copi a oedd wedi'i ddisbarthu gyda'r agenda.

Gofynnwyd i'r Aelodau wneud sylwadau neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a roddwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi'u crynhoi isod:

Gofynnodd yr Aelodau pam, pan ddychwelodd disgyblion difreintiedig i'r ysgol, fod eu chwarae'n gorfforol iawn ac a oes unrhyw wybodaeth ynghylch pam mae hyn wedi digwydd. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y wybodaeth yn anecdotaidd yn bennaf, ond bu cynnydd yn yr atgyfeiriadau ar gyfer lleferydd ac iaith a chyfathrebu, yn enwedig ym Mlynnyddoedd 3 a 4 sy'n gysylltiedig â natur gorfforol chwarae.

Trafododd yr Aelodau orbryder Covid yn arwain at lawer o absenoldebau a cheisio eglurhad ynghylch pa mor gyffredin a pharhaus ydyw o hyd. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau nad oes ffigurau penodol, fodd bynnag, wrth edrych ar bresenoldeb parhaus o dan 50% mae ein tîm AHY yn gweithio'n benodol gyda nhw. Mae'r materion gorbryder yn dod i'r wyneb wrth edrych ar y cynnydd yn nifer y bobl ifanc hynny sydd wedi dewis cael eu haddysgu gartref; maent yn cael eu tynnu'n ôl gan rieni oherwydd lefelau gorbryder. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r teuluoedd hynny i sicrhau nad yw'r disgyblion hynny'n cael eu hanghofio.

Gan gyfeirio at ddisgyblion AHY gofynnodd yr Aelodau am eglurhad o'r camau a gymerwyd i annog y disgyblion hynny i fynd yn ôl i'r ysgol. Eglurodd swyddogion fod addysg heblaw yn yr ysgol yn addysg briodol i rai disgyblion, ac felly byddai ystod ar gael y tu allan i'r ysgol ond yn gysylltiedig â darpariaeth ysgolion. Byddant yn aros ar y gofrestr. Bydd yna ddolenni i ddarpariaeth, efallai drwy Ddysgu Cymunedol Cysylltiedig, CAVAC neu wahanol fathau neu ddarpariaeth. Rydym yn bwriadu adeiladu darpariaeth.

Cyfeiriodd yr aelodau at lefelau cyrhaeddiad a gofynnwyd, gyda'r gwahaniaeth mewn marcio dros y blynyddoedd a'r dulliau asesu, a yw'r ffigurau'n gymharol. Dywedodd swyddogion nad yw'n bosibl defnyddio data am resymau tebyg, a dyna pam nad yw data ysgolion unigol yn cael ei rannu. Mae'n cael ei ddefnyddio gan ysgolion i lywio eu hunanwerthusiad.

Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau, rhoddodd swyddogion wybodaeth am lefel y cymorth gan Lywodraeth Cymru (LIC) yn ystod y pandemig; daeth penaethiaid at ei gilydd yn gyflym iawn i ddatblygu dull cyson, gweithiodd LIC yn gyflym gyda Chyfarwyddwyr Addysg i ddefnyddio rhai o'r dulliau yng Nghaerdydd. Darparwyd llais cyson i'r Penaethiaid. Fe wnaeth swyddogion ganmol LIC o ran yr arian grant a ddarparwyd - roedd yn briodol ac mae wedi ychwanegu gwerth i ysgolion.

Gofynnodd aelodau am bresenoldeb gan fod presenoldeb wedi gostwng yn y rhan fwyaf o ysgolion. Dywedodd swyddogion fod presenoldeb ysbeidiol, diwrnod yr wythnos neu wythnos ar y tro a diffyg presenoldeb wedi effeithio'n sylweddol ar ffigurau presenoldeb yr ysgol a symud y ffigurau presenoldeb i lawr. Mae'n debyg bod y rhai sydd wedi mynychu'n dda yn y gorffennol wedi parhau i fynychu. Mae pwysigrwydd presenoldeb da yn sgwrs ffurfiol a geir gyda rhieni, er bod achosion o Strep a'r Dwymyn Goch yn effeithio ar bresenoldeb ar hyn o bryd gan fod rhieni'n mynd â'u plant allan o'r ysgol gan nad ydyn nhw eisiau wynebu effaith hynny cyn y Nadolig. Mae penaethiaid yn ceisio cael rhieni i ddod â'u plant i'r ysgol; mewn rhai dosbarthiadau dim ond 11 a 12 o ddisgyblion sydd oherwydd y lefelau salwch presennol. Mae teuluoedd sydd â mwy nag un plentyn yn cael eu hannog i ynysu oherwydd bod un plentyn yn sâl. Mae rhieni y mae eu cyflyrau iechyd yn eu gwneud yn fwy agored i niwed hefyd yn cadw plant adref gan nad ydyn nhw am iddyn nhw ddod â salwch i'r cartref.

Holodd yr Aelodau a oedd unrhyw gymorth ariannol wrth symud ymlaen gyda materion presenoldeb, gan gofio bod cyllidebau'r Cyngor yn dynn. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod ysgolion yn gweithio ar bolisiau presenoldeb clwstwr sy'n helpu i ddadansoddi'r rhesymau dros beidio mynychu. Mae'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg ar draws Cymru yn ymwneud â gweithgor sy'n edrych yn benodol ar addysg ac yn rhannu arfer gorau fel bod dull cyson ar draws Cymru.

Trafododd yr Aelodau effaith mwy o firsau ar addysg plant a gofyn a oedd unrhyw fodd o reoli gorbryder y plant a'r rhieni. Amlinellodd un o'r penaethiaid i'r Aelodau nad problem yng Nghaerdydd yn unig yw hon, ond problem ledled Cymru. Fel grŵp o benaethiaid maen nhw wedi trefnu i rannu arfer da ond teimlir bod hon yn mynd i fod yn broblem fawr yn y dyfodol.

Nododd yr Aelodau y cynnydd mewn atgyfeiriadau at therapyddion lleferydd ac iaith ond roeddent yn meddwl a oes unrhyw ymyriadau ysgol- neu garfan gyfan yr ydym yn eu defnyddio. Rhoddwyd gwybodaeth i'r aelodau am asesiad o'r enw WELCOM yn y feithrinfa. Mae'n asesu lle mae'r disgybl gyda lleferydd ac iaith; mae 9 o 26 yn briodol i'w hoedran. Mae hyfforddiant yn cael ei roi ar waith ar gyfer y cynorthwywyr addysgu, athrawon a thrwy'r cyfnod sylfaen. Mae gan lawer o blant sy'n dod i'r ysgol anawsterau cyfathrebu.

Holodd yr aelodau ynghylch strwythur y diwrnod ysgol ac a oedd y pandemig wedi newid hyn. Gwnaeth un o'r penaethiaid roi gwybodaeth am gyflwyno 'amser lles' drwy gydol y diwrnod ysgol - cafodd hyn ei wneud yn ystod y pandemig. Roedd yna hefyd fwy o amser segur. Mae hyn wedi parhau, nid yw wedi'i strwythuro, mae'r plant yn penderfynu beth maen nhw am ei wneud, er enghraifft darllen yn y llyfrgell, cerdded neu redeg y tu allan (Parc Fictoria neu Barc Thompson). Mae seibiannau symud yn amlach ac amserlennu mwy hyblyg.

Gofynnodd yr Aelodau am adnoddau, a yw LIC yn cydnabod bod heriau adnoddau parhaus y tu hwnt i weithrediad arferol ysgolion, ac a oes unrhyw optimistaeth y gellid dod o hyd i rywfaint o adnoddau ychwanegol, yn ystod cyfnod sy'n dal i fod yn anodd. Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet bwysigrwydd buddsoddi yn addysg a lles ein plant ifanc yn y ddinas hon. Mae'n bwysicach nag erioed wrth ddod allan o Covid. Rydym ar ddeall y bydd LIC yn blaenoriaethu gwariant i'r Cyngor fel Awdurdod Lleol a gobeithio yn buddsoddi mewn pobl ifanc. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod sgysiau parhaus a rheolaidd yn digwydd rhwng swyddogion, swyddogion LIC, y Cynghorydd Merry a'i chyd-wleidyddion; mae'r setliad yn dal i gael ei ddisgwyl. Gwnaed y pwynt nad yw'n ymwneud â'r arian bob amser, ond y telerau a'r amodau y mae'n cael eu derbyn oddi tanynt. Mae hefyd yn ymwneud â sut, fel Dinas, mae'r Cyngor yn defnyddio'r holl adnoddau yn y Ddinas i roi'r cymorth a'r gefnogaeth honno o amgylch ysgolion.

Nododd yr Aelodau ei bod yn amlwg mai diben craidd asesu, yn briodol, yw i ysgolion gael yr offer i ymyrryd a chefnogi plant a chydabod eu cynnydd ac yn y blaen, ond holwyd sut y bydd LIC yn asesu sut mae system Cymru yn perfformio, yn enwedig yn sgil yr holl darfu dros y blynyddoedd diwethaf. Dywedodd swyddogion mai'r duedd dros y 4 blynedd diwethaf yw symudiad i ffwrdd o ddata penderfyniadau pwysig. Mae gan ysgolion ddata ar gael o hyd a byddant yn defnyddio hwnnw i hunan-werthuso hefyd. Mae yna hefyd fframwaith atebolrwydd newydd a chyfrifoldebau gwahanol randdeiliaid o fewn y fframwaith hwnnw. Mae'n bwysig symud i ffwrdd oddi wrth ddefnydd syml o ddata a deall mewn gwirionedd yr hyn y mae'r data yn ei ddweud wrthym. Mae sgysiau ehangach i'w cael a'u hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

Holodd yr Aelodau pam, os yw plentyn yn hwyr ac yn methu cofrestru, ei fod wedyn yn cael ei farcio'n absennol. Dywedodd swyddogion fod Polisi Presenoldeb yn mynd allan i ysgolion; mae'n ymdrin yn bennaf ag absenoldeb parhaus, byddai disgwyl elfen o hyblygrwydd a disgresiwn, fodd bynnag, byddai gan y pennaeth wybodaeth

am gefndir y teuluoedd. Nid oedd swyddogion yn credu ei fod yn arfer cyson. Yn yr achos penodol hwn, cadarnhaodd Swyddogion y byddai'n dibynnu ar hyd yr absenoldeb, a gwybodaeth am gefndir y teulu.

Cyfeiriodd yr Aelodau at dimau sy'n dal i weithio yn y Bwrdd Adfer, a gofyn am faint mwy o amser y mae'n debygol o barhau a pha rolau eraill sydd ganddo. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod integreiddio ehangach ar draws yr awdurdod, sy'n bwysig ac mae angen iddo ddigwydd oherwydd effaith y pandemig. Bydd y Bwrdd Adfer yn parhau nes nad oes ei angen mwyach ond mae ei waith yn tyfu'n barhaus; nid yw'n fwrdd meidraidd ac mae'n debyg y bydd yn parhau i'r dyfodol yn y tymor canolig i hwy i alluogi integreiddio gwasanaethau ehangach ac angenrheidiol.

Cyfeiriodd yr aelodau at y cynnydd mewn dysgu gartref ers y pandemig a gofyn am yr hyn sy'n cael ei wneud i sicrhau bod lefel y dysgu yn gyson, neu i'w cael yn ôl i'r ysgol, a hefyd gynnydd mewn cwnsela. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod y rhai mewn addysg ddewisol yn y cartref (EHE) yn cael eu tracio, gwneir gwaith gyda'r teuluoedd yn uniongyrchol i annog dychwelyd i addysg - unwaith eto, mae nifer o resymau dros hyn, yn enwedig yr elfen gorbryder. Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb o ran diogelu i gadw cysylltiad ac annog ailymgysylltu. O ran cwnsela, eglurwyd wrth yr Aelodau bod y cynnydd mewn cwnsela yn fater cenedlaethol, sy'n esbonio'r defnydd o wasanaethau ar-lein fel y gall disgyblion ddefnyddio'r gwasanaethau hynny yn hytrach na chwmsela wyneb yn wyneb. Mae hefyd yn ymwneud â sicrhau bod cwnselwyr hyfforddedig ar gael ac, fel y Gwasanaeth Plant gyda Gweithwyr Cymdeithasol, mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut y gellir defnyddio gwahanol fathau o ymarferwyr o fewn y Cyngor.

Roedd y [cyflwyniad](#) hefyd yn darparu Astudiaethau Achos y cyfeiriwyd atynt gan y Prifathrawon; Michelle Jones (Ysgol Gynradd Lansdowne ar dudalen 23); Claire Skidmore (Ysgol Gynradd Radur ar dudalen 32); a Patrick Brunnock (Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi ar dudalen 38).

Gofynnwyd i'r Aelodau wneud sylwadau neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a roddwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi'u crynhoi isod:

Gofynnwyd i'r Penaethiaid am les staff, a dywedwyd wrth yr Aelodau mai'r lefel gorbryder enfawr gyda disgyblion a rhieni a'r pryderon diogelu oedd y broblem mewn gwirionedd. Roedd yn gyfnod digynsail ac roedd staff yn gweithio 24 awr y dydd 7 diwrnod yr wythnos. Roedden nhw i bob pwrpas "ar alw". Byddent yn e-bostio a ffonio teuluoedd yn rheolaidd, yn gollwng parseli bwyd ac yn curo ar ddrysau fel eu bod yn cael gweld y plant. Roedd yn gyfnod anodd iawn. Trafododd yr aelodau bwysigrwydd cefnogi staff wrth symud ymlaen.

Canmolodd yr aelodau y cyflwyniadau gan y Penaethiaid.

Gofynnodd yr Aelodau am y cyswllt uniongyrchol â theuluoedd a chyswllt wyneb yn wyneb ac a yw'r cyswllt hwnnw gan y partneriaid perthnasol yn digwydd fel y dylai, a nodwyd hefyd fod oedi o hyd yn yr ymateb i atgyfeiriadau. Cynghorwyd yr aelodau gan y Penaethiaid bod cyfarfodydd gofal a chymorth a chynadledau amddiffyn plant yn dal i fod ar-lein ac ar hyn o bryd dim ond os yw teulu'n ddyfal y maen nhw'n digwydd wyneb yn wyneb. Mae angen gwneud gwelliannau o hyd. Darparwyd enghraifft o'r oedi mewn perthynas ag atgyfeiriadau - y llwybrau niwroddatblygiadol sydd â rhestr aros o 30 mis ar hyn o bryd. Fel ysgolion, felly mae'n bwysig i ni edrych

ar yr hyn y gellir ei roi ar waith i gefnogi'r plant hynny yn ystod y cyfnod hwnnw, ond nid oes gan ysgolion y lefel o arbenigedd, yn enwedig os oes yna ddiagnosis o awtistiaeth neu Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd, mae'n ei gwneud hi'n anoddach cefnogi'r plant hynny.

Holodd yr aelodau a oedd meysydd yr oedd y penaethiaid yn teimlo nad oedd y Cyngor wedi gwneud yn dda gyda hwy, a pha feysydd y credent y dylem ddysgu ganddynt i ddiogelu addysg plant pe bai sefyllfa debyg yn y dyfodol. Dywedodd penaethiaid mai ymdrech tîm oedd hi, roedd pawb ynddi gyda'i gilydd. Nid oedd neb yn bersonol yn gwneud toriadau neu newidiadau. Ni allai neb ragweld yr hyn ddigwyddodd. Roedd pethau'n cael eu trin yn ddyddiol. Roedd yn gyflym iawn. Roedd y cyfathrebu'n gryf iawn.

O ran y dysgu, dywedwyd wrth yr Aelodau y bydd yna ddysgu o'r broses, a fydd yn cael ei werthuso, mae llawer i'w ddysgu, mae yna bethau cadarnhaol, mae meysydd i'w datblygu. Roedd yn ddigynsail. Mae ysgolion yn datblygu ac yn diweddarau arferion yn gyson ar sail yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu.

Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ynghylch ymadawiadau staff, cynghorwyd yr aelodau bod dychwelyd i'r ysgol yn anodd i rai staff; maen nhw wedi gweld effaith Covid ar eu teuluoedd. Mae yna athrawon nad ydynt hefyd yn gallu cael gafael ar gymorth i'w plant eu hunain, felly mae'n rhaid iddynt ystyried eu blaenoriaethau.

Gofynnodd yr Aelodau am wasanaethau therapi galwedigaethol mewn ysgolion, a dywedwyd wrthynt y gellir cael atgyfeiriadau ac adroddiadau a chefnogaeth ar gyfer achosion unigol ond nid oes cyfranogiad penodol mewn ysgolion.

Nododd yr Aelodau bwysigrwydd peidio â stigmatiddio plant a holi a oedd wedi cael ei godi fel pryder a sut y gellid ei drin orau. Cynghorwyd yr aelodau gan y Pennaeth, Corpus Christi fod y garfan o ddisgyblion a oedd ganddo yn anhygoel, gwnaethant ddelio â'r sefyllfa heb ffws, gwnaethant fel y dywedwyd wrthynt, ac yr ymddiriedwyd yn yr athrawon gyda'r graddau a aseswyd. Ni allai wneud sylw ar stigmatiddio mewn gwirionedd, gan fod ei ganlyniadau bron yn llinell syth drwy'r pandemig.

Cwestiynodd yr aelodau heriau dysgu ar-lein a dywedwyd wrthynt fod y pynciau ymarferol yn anoddach, eu bod yn fwy ymarferol, ond roedd yr adrannau eraill yn wych. Roeddent yn barod ac yn meddu ar adnoddau da ac yn gwneud y broses yn hwyl. Mae ysgolion cynradd yn canfod, er enghraifft, fod y defnydd o ddysgu ar-lein a dysgu digidol yn golygu eu bod yn gallu darparu addysg iaith fwy modern i'w plant.

Cyfeiriodd yr aelodau at y diffyg cyfleusterau tŷ bach y cyfeiriwyd atynt gan y Pennaeth, Corpus Christi, sy'n arwain at giwiau ar gyfer y toiled gan mai dim ond 2 ddisgybl oedd yn cael mynd i mewn ar unrhyw un adeg. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod cyllid wedi bod - ac yn dal i fod - yn broblem, yn enwedig o gofio'r cyllid sydd ei angen i gefnogi'r disgyblion yn fugeiliol, er enghraifft lles a chynhwysiant, gofal, cefnogaeth ac arweiniad. Roedd dros 100 o ddigwyddiadau diogelu mewn tymor, nad ydynt wedi'u hystyried yng nghyllideb yr ysgol.

Cyfeiriodd yr aelodau at y mandad mwgwd mewn ysgolion a gofyn a oedd yn rhwystro dysgu mewn unrhyw ffordd. Cafodd yr aelodau wybod eu bod yn casáu'r mygydau, roedd hi'n anodd cefnogi plant, yn enwedig anawsterau iaith. Doedd y staff ddim eisiau eu gwisgo, roedd y plant yn eu hofn. Roedd yn her enfawr.

Gofynnodd yr Aelodau ymhellach am ddysgu o bell, nodwyd bod disgyblion yn colli cynorthwywyr addysgu, gan eu bod yn gwneud cynnydd gwirioneddol yn yr ystafell ddosbarth, ond ar y cyfan, roedd y dysgu ar-lein yn llwyddiant mawr. Cafodd athrawon a disgyblion eu hyfforddi cyn gadael yr ysgol.

Gofynnodd cynrychiolydd y Cyngor leuenctid am eglurhad am ddsbarthiadau gallu cymysg a dywedwyd wrtho eu bod ar gyfer blynyddoedd 7 ac 8 i ddechrau ac erbyn hyn mae blwyddyn 9 wedi'i hychwanegu. Mae'n mynd yn dda, ond mae setiau yn dal i fodoli mewn Mathemateg ond ar draws gweddill yr ysgol mae'n iawn, mae yna addysgu da.

O ganlyniad i gwestiwn, cynghorwyd aelodau y llynedd nad oedd gostyngiad yn y graddau ym Mlwyddyn 11. Gwnaethant i gyd ymgysylltu â'r dysgu ar-lein, roedd hyfforddiant ac adnoddau ar gael i bawb a oedd yn helpu.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb ond yn enwedig y Penaethiaid am eu cyflwyniadau sydd wedi bod yn emosiynol ac ysbrydoledig.

PENDERFYNWYD: Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor yn mynegi eu sylwadau a'u harsylwadau a gasglwyd yn ystod y ffordd ymlaen.

32 : ADRODDIAD GRŴP GORCHWYL A GORFFEN CYNLLUNIO TREFNIADAETH YSGOLION

Amlinellodd y Cadeirydd ei gyfarfod gyda'r Cynghorydd Hopkins a'r Tîm CTY ar 7 Rhagfyr i drafod y cynigion sy'n ymwneud ag Uned Blynyddoedd Cynnar Moorland a Dechrau'n Deg Newydd: Caffael Contractwr ar gyfer Adeiladu cyn iddo gael ei ystyried yn y Cabinet ar 15 Rhagfyr.

Dywedodd fod eu safbwyntiau a'u sylwadau wedi'u nodi yn yr adroddiad. Cyfeiriodd hefyd at un ymholiad nad oedd wedi'i ateb; a oedd unrhyw un o'r adeiladau a glustnodwyd i'w dymchwel yn y cynnig wedi'u rhestru. Mae diweddariad bellach wedi'i dderbyn, nid oes yr un ohonynt wedi'u clustnodi i'w dymchwel neu wedi'u rhestru.

PENDERFYNWYD: Nodi'r sylwadau a'r sylwadau a wnaed gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, a bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor.

33 : ADRODDIAD BUSNES Y PWYLLGOR

Rhodddwyd crynodeb o fusnes y Pwyllgor i'r Aelodau a chawsant wybod am yr ohebiaeth ddiweddaraf a dderbyniwyd.

PENDERFYNWYD:

- nodi'r cynnydd mewn perthynas â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ymchwiliad AHY;
- nodi cynnydd yr eitemau hynny a ddsberthir yn anffurfiol a'r diweddariadau llafar

cymeradwyo'r Flaenraglen Waith PCPPI ddiweddaraf ar gyfer Ionawr i Ebrill 2023.

34 : EITEMAU BRYYS (OS OES RHAI)

Dim

35 : Y FFORDD YMLAEN

Trafododd yr Aelodau'r wybodaeth a dderbyniwyd gan nodi nifer o broblemau y cytunai'r Cadeirydd fyddai'n cael eu cynnwys yn y llythyrau fyddai'n cael eu hanfon, ar ran y Pwyllgor, at yr Aelodau Cabinet a'r Swyddogion perthnasol.

36 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Mae dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor i'w gadarnhau, ond disgwyliwn iddo fod ar 21 Chwefror.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.50 pm